# SL(5)190 - Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod darpariaethau amrywiol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 i'w cymhwyso i ymchwiliadau i droseddau a gynhelir gan Awdurdod Cyllid Cymru ("ACC"). Maent yn cynnwys cael mynediad i fangre o dan amgylchiadau penodedig ac i ymafael mewn eitemau perthnasol.

Ceir esboniad o'r darpariaethau unigol yn y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ysgrifenedig cysylltiedig ar 21 Chwefror 2018 yn cyfeirio at yr amgynghoriad ynghylch y pwerau a'r penderfyniadau a gymerwyd.

## Gweithdrefn

Gadarnhaol

## Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Craffu ar rinweddau

Nodwyd y pwynt canlynol i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhoddir pwerau sylweddol i ACC gan y Rheoliadau hyn. Rhoddwyd esboniad nad yw'n ymddangos yn afresymol o'r pwerau hynny. Er hynny, tynnir sylw at y Rheoliadau ar y sail eu bod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu eu bod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. [Rheol Sefydlog 21.3(ii)]

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn yn y cyd-destun hwnnw.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Chwefror 2018**